OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 3047

## Rheoliadau Cynhyrchion Siwgr Penodedig (Cymru) 2003

**Amddiffyniad o ran allforio**

**8.** Mewn unrhyw achos sy'n ymwneud â thramgwydd o dan y Rheoliadau hyn, bydd yn amddiffyniad i'r person a gyhuddir os bydd yn profi —

(a) y bwriadwyd allforio'r bwyd yr honnir bod y tramgwydd wedi ei wneud mewn cysylltiad ag ef i wlad y mae ganddi ddeddfwriaeth sy'n cyfateb i'r Rheoliadau hyn a bod y bwyd yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth honno; a

(b) yn achos allforio i Wladwriaeth yr AEE, bod y ddeddfwriaeth yn cydymffurfio â darpariaethau Cyfarwyddeb y Cyngor 2001/111/EC(**1**) sy'n ymwneud â siwgrau penodol y bwriedir iddynt gael eu bwyta gan bobl.

(**1**) OJ Rhif L10, 12.1.2002, t.53. O ran ymgorffori Cyfarwyddeb y Cyngor 2001/111/EC yng Nghytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd *gweler* OJ Rhif L298, 31.10.02, t.10.